**Hysbysiad Preifatrwydd**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw buddiolwr arweiniol rhaglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith. Gan fod y rhaglen yn cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, rhaid i CCAUC gasglu rhai gwybodaeth benodol sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr yn y rhaglen, fel sy'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) / Llywodraeth Cymru yn unol â rheoliadau'r Gronfa Strwythurol (Rheoliad (UE) 1303/2013 a Rheoliad (UE) 1304/2013). Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r wybodaeth hon. Yn ogystal â hyn, mae CCAUC yn casglu data ychwanegol er mwyn rheoli a chyflenwi'r rhaglen; CCAUC yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth ychwanegol. Y prifysgolion sy'n cyflenwi'r rhaglen yw'r proseswyr data.

**Yr wybodaeth yr ydym yn ei phrosesu**

Mae'r mathau o wybodaeth a brosesir mewn perthynas â chyflogwyr yn cynnwys manylion personol a manylion cyswllt. Gellir gweld manylion llawn y data a gesglir a'r rheswm dros ei gasglu yn **Atodiad A**.

**Sail gyfreithlon**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth a gesglir yw galluogi Llywodraeth Cymru ac CCAUC i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio ynddynt, yn unol â Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol a'r cytundebau cyllido rhwng WEFO ac CCAUC.

**Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth a pha mor hir rydym yn ei chadw**

Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn ystod y broses gofrestru a'ch ymgysylltiad â'r rhaglen yn cael ei defnyddio i greu a chynnal cofnodion prosiect at ddibenion gweinyddol ac archwilio, i reoli a monitro'r rhaglen, ac i hawlio cymorth ariannol. Yn ogystal, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda sefydliadau sydd wedi'u contractio gan CCAUC i ymgymryd â gwerthusiadau neu astudiaethau ymchwil ar y rhaglen. Mae'n bosibl y bydd y contractwyr am gysylltu â chi i drafod eich profiadau ar y rhaglen. Bydd canlyniad y gwerthusiad ar ffurf adroddiad ysgrifenedig a fydd yn cael ei gyflwyno i WEFO a'i rannu gyda phrifysgolion ac eraill ond na fydd yn cynnwys unrhyw fanylion cyswllt, a bydd unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn ar ei sail yn cael ei dileu ohono. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru ac CCAUC.

Bydd data perfformiad y rhaglen yn cael ei rannu â'r holl bartneriaid cyflenwi (prifysgolion yng Nghymru) a rhanddeiliaid eraill. Bydd y data hwn yn cael ei gyfuno a'i nodi ar ffurf ystadegau.

Bydd WEFO hefyd yn rhannu data gyda thimau perthnasol Llywodraeth Cymru ac archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd i helpu i benderfynu a yw'r prosiect wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ac i wirio cymhwysedd cyfranogwyr, gweithgarwch a gwariant. Gall Llywodraeth Cymru hefyd rannu data gydag archwilwyr annibynnol.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru / WEFO yn defnyddio’r wybodaeth sy’n cael ei hanfon atynt, ewch i 180622-wefo-gdpr-v2-cy.pdf (gov.wales).

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall ar wahân i’r rhai hynny a nodwyd uchod. Bydd cyfnod cadw'r data yn cael ei bennu gan WEFO yn unol â’r rhwymedigaethau yn Rheoliad y Cronfeydd Strwythurol (UE) 1303/2013.

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol a gofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir, a hynny drwy anfon neges e-bost at CCAUC: atwe@hefcw.ac.uk.

Mae gennych hawl hefyd i wrthwynebu prosesu’ch data personol. Fodd bynnag, rhaid i chi roi rhesymau penodol dros wrthwynebu prosesu’ch data, a gallwn ni / Llywodraeth Cymru / WEFO barhau i brosesu’r data os gall Llywodraeth Cymru / WEFO ddangos sail gyfreithlon sy’n gymhellol dros brosesu’r data.

Os byddwch am weld y data a gedwir gan Lywodraeth Cymru, dylech gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at DataProtectionOfficer@llyw.cymru.

**Atodiad A**

## GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith

### Data a gasglwyd

Cyflogwyr

| Data | Rheswm dros gasglu'r data | Sut mae'r data yn cael ei brosesu |
|---|---|---|
| **System CRM:**<br>Enw'r cyflogwr<br>Cyfeiriad<br>Cod post<br>Awdurdod unedol<br>Nifer y cyflogeion (nid yw'n ofynnol)<br>Disgrifiad o weithgaredd y cyflogwr<br>Lleoliadau lle gallai'r cyflogwr gynnal profiad gwaith<br>Y math o brofiad gwaith y gallai ei gynnig<br>Manylion cyswllt y cyflogwr<br>Teitl<br>Enw<br>Rhif cyswllt<br>Cyfeiriad e-bost<br>Nodiadau<br>Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) – yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno'r rhaglen yn unol â'r Cynllun Busnes. | I ddod o hyd i brofiad gwaith a rheoli cysylltiadau cyflogwyr<br><br>Yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes pan mae'r cyflogwr wedi cwblhau ffurflen gofrestru. Cyn yr adeg honno, mae'n ofynnol bod y cyflogwr yn rhoi caniatâd. | Data a gafwyd i reoli cysylltiadau cyflogwyr ar draws y rhaglen.<br>I fonitro nifer y cyflogwyr ar y system CRM sydd â diddordeb mewn cynnal profiad gwaith fel rhan o'r rhaglen.<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |
| **System GOW**<br>Risg alwedigaethol uchaf<br>Risg drefniadol<br>Risg gyfunol | Yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. Rheolaeth o'r rhaglen | I wirio bod archwiliad iechyd a diogelwch wedi cael ei gynnal<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |
| **Ffurflen Gofrestru Cyflogwr**<br>Enw cofrestredig<br>Enw masnachu<br>Cyfeiriad<br>Tref / Dinas<br>Awdurdod unedol | Yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno a gwerthuso'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. Rheoli a monitro'r rhaglen | I fonitro, rheoli a chyflenwi'r rhaglen.<br>Gellid cael ei ddarparu i CCAUC / WEFO / archwilwyr fel tystiolaeth o weithgaredd.<br>Gwerthuso.<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |

| Data | Rheswm dros gasglu’r data | Sut mae’r data yn cael ei brosesu |
|---|---|---|
| Cod post<br>Cyfeiriad gwefan<br>Teitl<br>Enw(au) cyntaf<br>Cyfenw<br>Teitl swydd<br>Rhif cyswllt *(gan gynnwys cod ardal)*<br>Cyfeiriad e-bost<br>P’un a yw'r sefydliad yn y sector preifat / sector cyhoeddus / trydydd sector<br>A yw'r sefydliad yn fenter gymdeithasol<br>Nifer y cyflogeion<br>Sut yr ariannir y sefydliad (h.y. yn derbyn mwy na 50% o'i gyllid o'r pwrs cyhoeddus / llai na 50% o'i gyllid o'r pwrs cyhoeddus)<br>Sector busnes (categorïau’r ONS / Tŷ'r Cwmnïau)<br>Sut gwnaeth y sefydliad ddod i wybod am GOW | | |
| **Ffurflen Cofrestru Cyflogwr**<br>A hoffai'r sefydliad ddiweddariadau am y rhaglen | I hysbysu'r cyflogwr am newyddion ynglŷn â'r rhaglen. | Os mae'r cyflogwr wedi rhoi caniatâd, gellid cael ei ddefnyddio i anfon newyddion am y rhaglen |
| **Ffurflen Manylion Profiad Gwaith**<br>Disgrifiad o'r sefydliad<br>Y math o brofiad gwaith a gynigir i'r myfyriwr (cysgodi / blas / lleoliad)<br>Cyfnod arfaethedig y profiad gwaith<br>Nifer yr oriau fesul diwrnod / nifer y diwrnodau / patrwm mynychu<br>Dyddiad dechrau dewisol<br>Gweithgareddau y bydd y myfyriwr yn eu gwneud<br>Lleoliad y profiad gwaith (swyddfa, ffatri ac ati)<br>P’un a yw'r lleoliad yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus<br>Bydd y cyflogwr yn darparu'r adnoddau gofynnol i'r myfyriwr ymgymryd â'r profiad gwaith<br>Enw a manylion cyswllt goruchwyliwr/goruchwylwyr y myfyriwr | Yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno a gwerthuso’r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a’r Cynllun Busnes.<br>Rheoli a monitro'r rhaglen, gan gynnwys monitro ansawdd y cyfleoedd. | Gellid cael ei ddarparu i CCAUC / WEFO / archwilwyr fel tystiolaeth o weithgaredd.<br>I fonitro, rheoli a chyflenwi'r rhaglen.<br>Gwerthuso.<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |

| Data | Rheswm dros gasglu’r data | Sut mae’r data yn cael ei brosesu |
|---|---|---|
| Lefel/amlder disgwyliedig goruchwyliaeth | | |
| **Cais am Gymorth De Minimis**<br>Cadarnhad o ran p’un a yw'r sefydliad o fewn un o'r sectorau canlynol:<br>Y sectorau pysgodfeydd a dyframaeth<br>Cynhyrchu cynradd a/neu gynhyrchion amaethyddol<br>Prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol lle caiff swm y cymorth ei bennu ar sail pris neu faint y cynhyrchion a brynir neu a roddir ar y farchnad<br>Cadarnhad o ran p’un a yw'r sefydliad yn gymwys ar gyfer cymorth de minimis (h.y. p’un a yw'n gyfreithiol ar wahân, neu'n rhan o fenter gysylltiedig, neu'n rhan o uniad neu gaffaeliad)<br>Y swm o gymorth de minimis a dderbyniwyd yn y tair blynedd gyllidol ddiwethaf, y corff sy'n darparu cymorth, a'r mis / y flwyddyn y dyfarnwyd y cymorth | I wirio a dangos cymhwyster y cyflogwr i dderbyn grant (cymhorthdal) mewn perthynas â lleoliad taledig fel y nodwyd gan Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1407/2013 o 18 Rhagfyr 2013 ar gymhwyso Erthyglau 107 a 108 o'r cytuniad ar gymorth de minimis, sy'n berthnasol hyd at 31 Rhagfyr 2020 (Rheoliad Cymorth De Minimis) | I benderfynu a yw cyflogwyr yn gymwys i dderbyn nawdd o dan y Rheoliad De Minimis.<br>I fonitro cymorth de minimis.<br>Cedwir gwybodaeth a thystiolaeth am ddeng mlynedd yn unol â’r Rheoliad Cymorth De Minimis.<br>Darparwyd i CCAUC fel tystiolaeth o gydymffurfio â'r Rheoliad Cymorth De Minimis.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / WEFO / archwilwyr fel tystiolaeth o gydymffurfio â'r Rheoliad Cymorth De Minimis.<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |
| **Adborth gan gyflogwyr**<br>Adborth ynglŷn â'r rhaglen<br>Adborth ynglŷn â'r myfyriwr | Yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno a gwerthuso’r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a’r Cynllun Busnes.<br>I helpu’r myfyriwr i ddysgu wrth a myfyrio ar brofiad gwaith. | Gellid ei ddarparu i CCAUC / WEFO / archwilwyr fel tystiolaeth o weithgaredd.<br>Monitro, rheoli a chyflenwi’r rhaglen.<br>Gwerthuso.<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |
| **Lleoliad taledig:**<br>Slipiau cyflog y cyfranogwr oddi wrth y cyflogwr<br>Cyfriflenni banc oddi wrth y cyflogwr<br>Datganiad arian cyfatebol | Yn ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen ac i gyflwyno’r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a’r Cynllun Busnes.<br>Tystiolaeth o'r gwir gostau y talwyd i'r cyfranogwr | Gellid ei ddarparu i CCAUC fel tystiolaeth o weithgaredd / hawliad ariannol.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / WEFO / archwilwyr fel tystiolaeth o weithgaredd / hawliad ariannol.<br>Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |
| **Lleoliad taledig:**<br>Datganiad Arian Cyfatebol | Cadarnhad o arian cyfatebol a chymhorthdal yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a’r Cynllun Busnes. | Gweithgaredd monitro<br>Monitro gwariant ac arian cyfatebol<br>Rhan o hawliad ariannol i dynnu costau i lawr oddi ar WEFO |

| Data | Rheswm dros gasglu’r data | Sut mae’r data yn cael ei brosesu |
|---|---|---|
| | | Wedi'i gadw yn unol ag arweiniad ar gadw dogfennau. |